# ARWYDDION TYMHORAU: CALENDR FFENOLEG DOSBARTH

## AMCANION DYSGU

- Mae disgyblion yn datblygu diffiniad gweithiol o ffenoleg
- Mae disgyblion yn deall y gall amseriad digwyddiadau ffenolegol newid, yn enwedig o ganlyniad i newidiad yn yr hinsawdd
- Mae disgyblion yn adnabod rhai effeithiau lleol (gwirioneddol neu bosibl) newidiadau mewn ffenoleg

## TROSOLWG

Mae disgyblion yn creu calendr misol o ddigwyddiadau ffenolegol ar dudalennau mawr o bapur wedi'u hongian o amgylch yr ystafell.

Yna maen nhw'n trafod y calendr a chanlyniadau posib newidiadau mewn amseriad ffenoleg lleol.

## AMSER GOFYNNOL


15–20 munud i gyfranogwyr greu calendr

20 munud i drafod a myfyrio

Dewisol: creu calendr dosbarth am y flwyddyn

## BETH YW FFENOLEG?

Ffenoleg yw'r astudiaeth o newidiadau tymhorol mewn planhigion ac anifeiliaid o flwyddyn i flwyddyn, fel planhigion yn blodeuo, ymddangosiad pryfed ac ymfudiad adar, yn enwedig eu hamseriad a'u perthynas â'r tywydd a'r hinsawdd.




## CYFARWYDDIADAU

1. Cyn dechrau, rhowch 12 dudalen o bapur i hongian o amgylch yr ystafell, un am bob mis o'r flwyddyn, neu bedwar darn o bapur yn cynrychioli'r tymhorau.
2. Gofynnwch i'r disgyblion weiddi enghreifftiau o ddigwyddiadau biolegol tymhorol y maen nhw'n edrych ymlaen atyn nhw (neu y byddai'n well ganddyn nhw eu hosgoi) bob blwyddyn – blodau neu adar cynta'r gwanwyn, tymor hel mwyar neu gwymp y dail.
3. Casglwch yr atebion.
4. Gofynnwch i'r disgyblion godi a llenwi'r calendr gyda'r digwyddiadau tymhorol.

## TRAFODAETH DDOSBARTH

Gofynnwch i'r disgyblion rannu eu harsylwadau am wahaniaeth amseriadau ymhlith gwahanol rywogaethau. Ydyn nhw wedi sylwi bod amseriad rhai digwyddiadau yn newid, ac eraill yn aros yr un fath?

Sut mae cofnodi'r newidiadau hyn? Oes cofnodion allwn ni eu defnyddio i ddarganfod hyn? Beth allai achosi newidiadau ffenoleg? Yw'r newidiadau am fod yn unffurf?

Beth yw rhai o ganlyniadau (gwirioneddol neu bosibl) newidiadau ffenoleg i bobl, planhigion ac anifeiliaid?

Dilynwch y trywydd cwestiynu hwn gydag enghraifft neu ddwy o ffyrdd y mae gwahanol rywogaethau yn newid, enghreifftiau o sut mae gwyddonwyr (neu eraill) wedi dogfennu'r newidiadau hyn, a chanlyniadau'r newidiadau.

## CWESTIYNAU ALLWEDDOL

Pryd mae digwyddiadau naturiol a dynol yn digwydd yn eich cymuned?

Yw amseriad rhai digwyddiadau yn newid?

Os felly, sut?

Beth allai fod yn ganlyniadau'r newidiadau hyn?

Trafodwch y gwahaniaethau rhwng newidiadau tymor byr amseriadau tymhorol a thueddiadau hirdymor. Er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng cyfnod o dywydd anarferol o gynnes yn achosi gwanwyn cynnar un flwyddyn o'i gymharu â phatrwm hirdymor o dywydd cynnes yn gynnar yn y flwyddyn, gan newid amseriadau newidiadau tymhorol.

## GWAITH PELLACH

### Her

Fel dosbarth, cofnodwch ac arsylwi gynifer o ddigwyddiadau tymhorol lleol â phosib. Cofnodwch yr arsylwadau mewn calendr dosbarth dros y flwyddyn ysgol.

### Cystadleuaeth

Fel dosbarth, dewiswch ddigwyddiadau i edrych amdanynt dros dymor, fel y gwanwyn neu'r hydref. Gall y disgyblion gystadlu i fod y cyntaf i adnabod a chofnodi'r digwyddiadau ar y calendr. Beth am greu taflenni sylwi digwyddiadau’r tymor, fel chwarae bingo?

### Cyfrannu eich data

Gall disgyblion gyfrannu cofnodion o’u harsylwadau i ffwrdd o’r ysgol gan ddefnyddio platfform recordio fel Nature’s Calendar.

## *NATURE’S CALENDAR*

Mae arsylwadau Nature’s Calendar yn helpu i ragweld sut y bydd newidiadau i’r hinsawdd yn effeithio ar fyd natur.

Mae cofnodion Nature’s Calendar yn cyfrannu at gronfa ddata ffenoleg fwyaf y DU. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys 2.9 miliwn o gofnodion, gyda'r hynaf yn dyddio'n ôl i 1736. Defnyddir y data gan ymchwilwyr o bedwar ban byd i ddysgu am effeithiau tywydd a hinsawdd ar amseriadau mewn bywyd gwyllt.

## SUT I GYMRYD RHAN?

Helpwch i gofnodi effeithiau tywydd a newid yn yr hinsawdd ar fywyd gwyllt lleol.

Pa effaith gafodd y tywydd diweddar ar fywyd gwyllt? Yw newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amseriadau natur? Ymunwch â Nature's Calendar a helpu gwyddonwyr i ateb y cwestiynau.

Mae gwirfoddolwyr Nature's Calendar yn cofnodi dyddiadau digwyddiadau penodol i rywogaethau penodol yn ystod y tymhorau cyfnewidiol.

Mae'r rhestr o rywogaethau allwch chi eu cofnodi wedi'i ddewis yn ofalus gan wyddonwyr i'n helpu i ddeall sut mae'r tywydd a newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar fywyd gwyllt.

Ymunwch, a rhoi gwybod i ni beth sy'n digwydd i'r rhywogaethau hyn ar eich stepen drws.

https://naturescalendar.woodlandtrust.org.uk/